# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (238)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 18 Ionawr 2011**
**Amser: 13.30**

Enwebwyd William Graham yn Ddirprwy Lywydd dros dro am y cyfarfod cyfan.

### 13.30
### Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd yr 14 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 1 a 7 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 13.

………………………

### 14.15
### Pwynt o Drefn – Kirsty Williams

Gofynnodd Kirsty Williams am eglurhad am y gofyniad sydd ar y Prif Weinidog i ateb cwestiynau atodol gan yr Aelodau. Daeth hyn yn sgil methiant honedig i ymateb i gyfraniad Veronica German AC. Croesawodd y Dirprwy Lywydd dros dro ymrwymiad y Prif Weinidog i gyfeirio at y Cofnod ac ysgrifennu at yr Aelod yn ymateb i unrhyw gwestiynau nad oedd wedi'u hateb.

………………………

### 14.17
### Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

………………………

### 14.49
### Eitem 3: Dadl ar y gyllideb ddrafft

**NDM4629 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.6:

Yn nodi'r gyllideb ddrafft ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2011-2012 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ar 17 Tachwedd 2010.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ailddrafftio’r gyllideb hon, ac ailddyrannu cronfeydd er mwyn amddiffyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn termau real dros y tair blynedd nesaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 42 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddargyfeirio arian o feysydd sydd â blaenoriaeth isel i dalu am gyflwyno Premiwm Disgybl.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddargyfeirio arian o feysydd sydd â blaenoriaeth isel i dalu am sefydlu Cronfa Arloesi i ysgogi arloesedd economaidd ac i ddatblygu'r economi wybodaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 36 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd ati ar unwaith i ymchwilio i honiadau o wario aneffeithiol yn y GIG ac i ddargyfeirio cyllid o'r meysydd hynny lle na ddefnyddiwyd y gwariant yn effeithiol a'i fuddsoddi mewn gofal cleifion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4629 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.6:

Yn nodi'r gyllideb ddrafft ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2011-2012 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ar 17 Tachwedd 2010.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 5 | 9 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**16.36**

**Eitem 4: Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 23.57 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.49, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Mesur arfaethedig.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:

**1. Pobl ifanc**

7, 5, 13, 12, 14

**2. Cynllun y plant**

8, 9, 10, 1

**3. Gwelliannau technegol**

2, 3, 4

**4. Adrodd**

11

**5. Y weithdrefn ar gyfer gwneud Is-ddeddfwriaeth**

6

**6. Gwneud iawn**

15

**Cynhaliwyd y pleidleisiau yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli:**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 34 | 49 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 1 | 35 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 10.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 11.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gan fod gwelliant 5 wedi'i wrthod, methodd gwelliannau 13, 12 a 14.**

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 15:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 15.**

**Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Mesur arfaethedig wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.**

………………………

**17.55**
**Eitem 5: Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 23.58 i gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3, gall y Gweinidog gynnig i'r Mesur arfaethedig gael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 23.58.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

Bydd y Mesur fel y cafodd ei basio i'w weld drwy ddilyn y linc hwn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-rightsofchildren.htm

………………………

**18.01**
**Cyfnod pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.02.

………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 19 Ionawr 2011.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**